Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

06 Ionawr 2022

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau: cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad

Ar 7 Rhagfyr 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar gyfer Bil Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y DU at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd dydd Iau, 10 Chwefror 2022. Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn gwneud cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan ddydd Iau 17 Chwefror 2022.

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod ein dulliau o graffu ar y Memorandwm yn ystod ein cyfarfodydd cyntaf yn y flwyddyn newydd (ar 13 Ionawr). Rydym yn rhagweld y byddwn yn gofyn am ragor o dystiolaeth cyn dod i gasgliadau a gwneud argymhellion. Ni fyddai digon o amser i gyflwyno tystiolaeth cyn ein cyfarfod nesaf, sydd wedi'i drefnu ar 27 Ionawr. Felly, y cyfle cyntaf y byddai'r naill Bwyllgor neu'r llall yn ei gael i drafod y dystiolaeth mewn cyfarfod ar yr amserlen gyfredol fyddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 10 Chwefror, sef y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno, felly, i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan ddydd Iau 17 Chwefror, sef estyniad o wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i'r ddau Bwyllgor dan sylw drafod y materion pwysig hyn yn ein cyfarfodydd ar 10 Chwefror, cyn cwblhau ein hadroddiadau drwy e-bost yn ystod yr wythnos ddilynol.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.